**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n mynd i ddangos y person neu'r bobl? Pa fathau o ddillad fyddan nhw'n eu gwisgo? Pam?
- Beth mae'r bobl yn ei wneud? Sut byddwch chi'n dangos hyn?
- Pa liwiau ydych chi'n mynd i'w defnyddio? Pam?
- Beth yw naws eich llun? Sut gallwch chi ddangos y naws hon?

Gwahoddwch y dysgwyr i dynnu llun o'u golygfa.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu llun nhw â lluniau dysgwyr eraill yn y dosbarth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r lluniau'n debyg?
- Sut maen nhw'n wahanol?
- Sut y gellir eu cyfuno nhw gyda'i gilydd i ddangos stori Merch y Llyn?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo Cerys Matthews Y Goeden Faled a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am beth mae'r gân yn son?
- Pam ei bod yn ddoniol?
- Pa ganeuon eraill ydych chi'n gwybod amdanynt, lle mae ailadrodd pennill, gan ychwanegu rhywbeth bob tro?
- Pryd ydych chi wedi canu un o'r caneuon hyn?

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ysgrifennu geiriau i'w cân sydd â'r strwythur ailadroddus hwn a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am beth fydd eich geiriau chi'n son? Pam?
- Beth ydych chi'n mynd i'w ychwanegu bob tro mae'r pennill yn cael ei ganu?

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu eu geiriau ar gyfer tua pump o benillion.

